



Y Coleg Cymunedol Cenedlaethol
The National Community College

Canllawiau ynghylch Diogelu, Prevent a
Lles Dysgwyr

Diweddariad Covid-19: Mai 2020



Cyflwyniad

Mae Covid-19, ac ymateb Llywodraethau Cymru a'r DU i'r firws, wedi arwain at newid aruthrol yn ei dull o fyw ein bywydau.

Er bod addysgu wyneb yn wyneb AOC | ALW wedi'i atal dros dro ar hyn o bryd, rydym ni'n dal i fod ar agor yn ystod y cyfnod hwn ac mae llawer o gyfleoedd ar gyfer dysgu ar-lein ar gael ar hyn o bryd ac mae rhagor o gysgiau ar-lein yn cael eu datblygu'n ddyddiol.

Mae iechyd, lles a diogelwch ein dysgwyr yn parhau i fod yn flaenoriaeth bennaf i ni. Rydym ni wedi'n hymrwymo i ddarparu amgylchedd ble gall ein dysgwyr deimlo'n ddiogel wrth ddysgu; mae hynny'n berthnasol i ddysgu mewn dosbarth, o bell neu ar-lein.

Mae'r canllawiau hyn yn ategu polisiau cynorthwyo a diogelu AOC | ALW, ac nid ydynt yn disodli'r cyfrifoldebau, yr egwyddorion a'r disgwyliadau sy'n rhan o'r polisiau hynny. Yn hytrach na hynny, diben y canllawiau yw darparu diweddariadau pwysig ynghylch ein dull o ymdrin ag iechyd, lles a diogelwch dysgwyr yn ystod y cyfnod hwn.

Rydym ni'n parhau i fonitro'r sefyllfa bresennol a byddwn ni'n ymateb i gyngor ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru pan fydd hynny ar gael. Byddwn yn parhau i ddarparu diweddariadau i ddysgwyr, aelodau, canghennau a staff trwy law ein timau rhanbarthol, ein cyfryngau cymdeithasol a'n gwefannau, sy'n cynnwys [cwestiynau cyffredin](#) sy'n cael eu diweddarau'n rheolaidd.

Iechyd Meddwl a Lles

Bydd y cyfyngiadau presennol yn effeithio ar les pawb, ac mae'n hawdd iawn teimlo eich bod chi'n cael ei gorlethu yn ystod y cyfnod ansicr hwn. Mae cymorth ynghylch iechyd meddwl a lles yn hynod o bwysig yn ystod cyfnod o hunanynysu a llai o gyswllt cymdeithasol. Trowch at ein [gwefan](#) i gael cyngor ac adnoddau i gynorthwyo ag iechyd meddwl a lles.

Caledi ariannol

Diben ein Cronfa Ariannol wrth Gefn yw darparu cymorth ariannol ychwanegol i ddysgwyr y mae eu harian yn gyfyngedig neu sy'n wynebu anawsterau ariannol.

Mae'r Gronfa Ariannol wrth gefn yn dal ar gael ar gyfer dysgwyr cymwys yn ystod y cyfnod hwn i'w cynorthwyo i brynu eitemau perthnasol megis llyfrau a deunyddiau cyrsiau.

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch cymorth ariannol a meini prawf cymhwysra, trowch at ein gwefan [yma](#).

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd dysgu effeithiol a chefnogol i bob dysgwr. Caiff AOC | ALW gyllid i ariannu Cymorth Dysgu Ychwanegol er mwyn cynorthwyo dysgwyr y gwyddys fod ganddynt anawsterau dysgu a/neu anabledau, fel caiff rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyflawni eu potensial fel unigolion eu diddymu a bydd dysgwyr yn gallu cyflawni eu potensial llawn yn well.

Efallai bydd dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu cael cymorth rhithwir un ac un ynghylch cyrsiau yn ystod y cyfnod hwn.

Yn union fel yn achos ein gwefan, mae ein platfformau dysgu ar-lein yn cael eu hategu ar hyn o bryd gan feddalwedd hygyrchedd ReciteMe, sydd ar gael i'n holl ddygwyr. Efallai bydd dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu cael rhagor o gymorth arbenigol i'w cynorthwyo ag unrhyw faterion yn ymwneud ag hygyrchedd cyrsiau ar-lein yn ystod y cyfnod hwn.

I gael rhagor o wybodaeth am gymorth dysgu ychwanegol, cysylltwch â'ch ti, rhanbarthol neu diwtor eich cwrs i ddechrau, neu e-bostiwch info@adultlearning.wales

Diogelu a Prevent

O ganlyniad i Covid-19, mae'n rhaid bod yn fwy gwyliadwrus yn sgil y pwysau ar wasanaethau, teuluoedd a phobl ifanc yn ystod y cyfnod hwn.

Mae diogelu yn dal i gyfrifoldeb i bawb, ac os oes gennych chi unrhyw bryderon yn ymwneud â diogelu, dylech chi hysbysu ein Tîm Diogelu am hynny; gweler y manylion cysylltu isod neu e-bostiwch safeguarding@adultlearning.wales

Mae ein Polisi Diogelu a Prevent, yn cynnwys cysylltiadau allweddol i gael cyngor ynghylch Diogelu a Prevent, ar gael [yma](#).

Tra byddwn ni'n hunan-ynysu ac yn cadw pellter cymdeithasol oherwydd Coronafeirws, mae platfformau cyfryngau cymdeithasol, megis Twitter, Snapchat a galwadau fideo, yn ffordd wych o gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu, rhannu eich myfyrdodau a'ch syniadau, a chysylltu â phobl sy'n ymddiddori mewn pethau tebyg.

Yn anffodus, er eu bod yn brin, ceir dylanwadwyr negyddol a phobl sy'n magu perthynas amhriodol ar-lein, sy'n defnyddio'r rhyngwryd, cyfryngau cymdeithasol a gwefannau chwarae gemau ar-lein i rannu eu syniadau eithafol. Gellir ystyried fod rhai o'r syniadau hyn yn radical neu'n eithafol, a phan fydd unigolyn yn cychwyn eu cefnogi neu ymwneud â hwy, gelwir hyn yn radialeiddio.

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch sicrhau eich bod chi a'ch teulu yn ddiogel ar-lein ar gael [yma](#).

Diogelwch Ar-lein

Yn ystod y cyfnod anodd hwn, byddwn ni oll yn dibynnu mwy ar gyfathrebu digidol. Mae llawer o bobl yn defnyddio gwasanaethau ac apiau newydd neu ddyfeisiau megis gwe gamerâu a chyfrifiaduron llechen, i weithio neu gymdeithasu. Efallai y byddwch chi hefyd yn gwneud defnydd amlach o ddyfeisiau a gwasanaethau yr oeddech chi'n eu defnyddio'n flaenorol.

I'ch helpu chi i gadw'n ddiogel, dylech chi: Archwilio eich gosodiadau diogelwch a phreifatwydd – addaswch eich gosodiadau preifatwydd a diogelwch i gadw'r data personol y byddwch chi'n eu rhannu yn fwy diogel ac i'w rheoli'n well. Byddwch yn ymwybodol o'ch "olion traed digidol" – gwybodaeth amdanoch chi sy'n bodoli ar-lein o ganlyniad i'ch gweithgarwch ar-lein.

- Rhwystrwch gynnwys anaddas - mae'n bwysig deall y wefan neu'r ap rydych chi'n eu defnyddio a sut maent yn gwneud pethau - darllenwch eu telerau a'u hamodau i gael gwybodaeth am hynny. Os gwelwch chi weithgarwch niweidiol, hysbyswch y wefan am hynny. I atal cynnwys digroeso rhag ymddangos, gosodwch hidlyddion ar rwydweithiau eich gwasanaeth band eang gartref a'ch ffôn symudol. Mae [Canolfan Defnyddio'r Rhyngwrwd yn Fwy Diogel y DU](#) yn cynnig cyngor ynghylch sut i wneud hyn.
- Amddiffynnwch eich hun rhag twyll - gochelwch rhag twyll a sgiâmiau yn cynnwys e-byst gwe-rwydo a negeseuon testun cysylltiedig â Covid-19.
- Gwiriwch yr holl ffeithiau – nid yw'r holl wybodaeth sydd ar gael ar-lein yn ddibynadwy. Cyn i chi hoffi, cynnig sylwadau neu rannu rhywbeth ar-lein, defnyddiwch [restr wirio SHARE](#) i sicrhau nad ydych chi'n cynorthwyo i ledaenu cynnwys niweidiol:
 - Ffynhonnell (Source) – sicrhewch fod y wybodaeth yn deillio o ffynhonnell ddibynadwy
 - Pennawd (Headline)- cofiwch ddarllen mwy na dim ond y pennawd
 - Dadansoddwch (Analyse)- gwiriwch y ffeithiau
 - Atgyffyrddiad (Retouched)- a yw'r ddelwedd fel pe bai wedi cael ei ffugio?
 - Gwallau (Error)- chwiliwch am wallau gramadeg a sillafu

Mae rhagor o wybodaeth am gadw'n ddiogel ar-lein ar gael [yma](#)

Cysylltiadau Allweddol

Enw	Rôl	Rhif cysylltu	Cyfeiriad e-bost
Cath Hicks	Arweinydd Diogelu Dynodedig / Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau	07931 204613	cath.hicks@adultlearning.wales
Martyn Reed	Rheolwr Gwasanaethau Dysgwyr	07715 904304	martyn.reed@adultlearning.wales
Mary Morris	Rheolwr Adnoddau Dynol	07930 688202	mary.morris@adultlearning.wales
Rachel Burton	Rheolwr Gwaith Ieuentid, Cymuned a Chwarae/Swyddog Diogelu	07960 858835	rachel.burton@adultlearning.wales
Jayne Ireland	Rheolwr Rhanbarth De- ddwyrain Cymru/ Swyddog Diogelu	07787 423632	jayne.ireland@adultlearning.wales
Sarah O'Connell Jones	Rheolwr Rhanbarth Gogledd Cymru/ Swyddog Diogelu	07930 867920	Sarah.O'ConnellJones@adultlearning.wales
Beth John	Rheolwr Rhanbarth De, Gorllewin a Chanolbarth Cymru	07432 881123	beth.john@adultlearning.wales

Mewn argyfwng (perygl dybryd/bywyd yn y fantol), dylech chi ffonio 999 bob amser.

